# Ymholiad i'r argyfwng COVID-19 a'i effeithiau ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon

## Ymateb gan Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

## 1. Cyflwyniad - Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Nod Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) yw cynhyrchu dawns sydd ymhlith y gorau yn unrhyw le, yn gwasanaethu fel llais cryf i eirioli dawns a'r celfyddydau yng Nghymru. Ein nod yw dangos bod Cymru fodern yn genedl o ragoriaeth ddiwylliannol drwy wthio ffiniau yr hyn y gellir ei ddychmygu ar lwyfannau ac agor drysau i gyfleoedd er mwyn i bobl fynegi eu bywydau drwy ddawns, gyda manteision cymdeithasol ac iechyd i'r meddwl a'r corff.

Rydym yn gwmni sy'n perfformio repertoire o ddawns gyfoes - sy'n golygu ein bod yn creu gwaith gan amrywiaeth o goreograffwyr gwahanol. Gan weithio gyda chwmni o ddawnswyr proffesiynol medrus, rydym yn creu perfformiadau ar gyfer pob math o leoedd - o theatrau bach a mawr yng Nghymru i Faes yr Eisteddfod, o lwyfannau Ewropeaidd a Rhyngwladol i brosiectau ar-lein a sgrin, ac o leoliadau treftadaeth i'n cartref yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Law yn llaw â'n perfformiadau rydym yn cynnal rhaglen gynyddol o raglenni cyfranogi mewn dawns yng Nghymru. Bwriedir hwy ar gyfer yr hen a'r ifanc, ac ar gyfer y rhai hynny nad ydynt erioed wedi cael blas ar ddawns o'r blaen, i ddawnswyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ac artistiaeth, ac i bobl y mae dawns yn weithgaredd therapiwtig o ganlyniad i gyflwr neu salwch.

Dyma rai o'r ffyrdd yr ydym yn cyflwyno'r gwaith hwnnw:

- Llwyfannau teithio mawr a bach yng Nghymru: yn ystod 19/20 perfformiasom ym Mhwllheli, yr Wyddgrug, Bangor, Caernarfon, y Drenewydd, Aberdyfi, Aberystwyth, Llanrwst fel rhan o'r Eisteddfod, Arberth, Ystradgynlais, Abertawe, Casnewydd, Caerdydd
- Galluogi pobl o bob oedran i ddod a chymryd rhan mewn dawns drwy rwydwaith o 'Lysgenhadon Dawns' ledled Cymru, mewn partneriaeth â lleoliadau yn yr Wyddgrug, Bangor, Aberystwyth, y Drenewydd, Abertawe, Caerdydd ac Aberhonddu, a'n rhaglenni Dawns ar gyfer Parkinson's
- Rhyngwladol: yn 19/20, perfformiasom yn Japan, Hong Kong, yr Almaen, Awstria, Sbaen
- Bod yn ysgogwr arloesedd, ymchwilio i ddulliau newydd o brofi dawns, rhannu gwybodaeth gyda'r sector drwy wahodd ymarferwyr o'r radd flaenaf i Gymru.

Mewn pum mlynedd, rydym wedi cynyddu ein cyrhaeddiad bedair gwaith, er yr hoffem gyrraedd llawer pellach, gan ymgysylltu â phob math o bobl yn y maes dawns, fel cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, ledled Cymru.

## 2. Beth yw effaith uniongyrchol Covid-19 ar y sector?

Mae cau'r lleoliadau celfyddydol ledled Cymru wedi golygu bod ein holl berfformiadau a'r incwm cysylltiedig i theatrau a chwmnïau celfyddydau teithiol wedi'u colli. Mae theatrau yn ddibynnol iawn ar incwm tocynnau ac incwm cysylltiedig i oroesi a heb hwn roedd llawer mewn perygl, ac yn dal i fod mewn perygl. Fel y rhan fwyaf o gwmnïau celfyddydau, mae CDCCymru yn ddibynnol ar leoliadau fel partneriaid ar gyfer teithio a chyflwyno ein gwaith; mae ein cynlluniau cydweithredol i ddatblygu cynulleidfaoedd a chyfranogwyr newydd i'n gwaith yn golygu bod y bygythiad i leoliadau yn lledaenu i'r cwmnïau sy'n cyflwyno eu gwaith yn rheolaidd yn yr hybiau cymunedol allweddol hyn, gan eu bod nhw'n cynrychioli ein 'taith i'r farchnad'.

Yn ogystal, mae risg sylweddol i weithwyr llawrydd yn y celfyddydau - ac mae nifer ohonynt; mae sefydliadau wedi llwyddo i gynnal taliadau i weithwyr llawrydd dan gontract, gan gynnwys lle nad yw gwaith yn cael ei wneud bellach. Yn CDCCymru, rydym yn anrhydeddu contractau llawrydd ag artistiaid, technegwyr, athrawon a gweithwyr dawns cymunedol.

Ar gyfer CDCCymru, yr effaith fwyaf uniongyrchol oedd colli perfformiadau a'r incwm sy'n gysylltiedig â hynny. Daeth y cyfyngiadau i rym pan oedd y Cwmni ar daith, a arweiniodd at golli:

- y rhan fwyaf o daith y gwanwyn yng Nghymru a'r DU (10 lleoliad)
- cydweithrediad teithio gydag Opera Cenedlaethol Cymru (4 lleoliad)
- taith o amgylch yr Almaen a Lwcsembwrg yng nghanol mis Mai (2 leoliad).

Cawsom golledion sylweddol yn incwm teithio ac incymau eraill yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol (Ebrill-Mehefin), cyfanswm o oddeutu £49,000 net. Mae'r effaith ar yr ail a'r trydydd chwarter yn dueddol o fod yn gyffelyb hefyd gan fod rhagor o ymgysylltiadau perfformio (ac incwm cysylltiedig) y tu hwnt i'r chwarter cyntaf wedi'u colli, gan gynnwys taith yr haf yng Nghymru o *Annwyl i Mi*, gwaith dawns awyr agored ynglŷn â rygbi, a'r tymor gwaith yng Nghaerdydd.

Fel nifer o gwmnïau, rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i gyflwyno ein gwaith i gynulleidfa yn y realiti newydd hynod ryfedd hwn. Mae CDCCymru yn profi dulliau gweithredu i gynnal gwaith digidol newydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer yr hydref. Mae hyn wedi cynnwys creu fideos byrion, ffrydio perfformiadau, a gweithdai i'n grwpiau Dawns ar gyfer Parkinson's, ac i blant a phobl ifanc. Mae'r ddysg werthfawr hon yn sail i gynlluniau'r dyfodol. Gyda hyn bydd y Cwmni yn lansio rhaglen o gomisiynau digidol i feirdd a dawnswyr mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru i greu fideos barddoniaeth a dawns byrion, a rhagor o gomisiynau i artistiaid dawns annibynnol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn y sffêr ddigidol.

**3. Pa mor effeithiol mae'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r cyrff hyd braich wedi mynd i'r afael ag anghenion y sector?**

Mae'r gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r DU yn eithriadol o ddefnyddiol i alluogi sefydliadau i oroesi. Y pwysicaf ymysg y rhain yw'r Cynllun Cadw Swyddi (CCS), y mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau yn ei ddefnyddio. Mae hyn wedi golygu mai dim ond ychydig iawn, os unrhyw rai, o bobl yn y sector celfyddydau sydd wedi colli'u swyddi. Bydd hyn yn parhau i fod yn allweddol i gynnal sefydliadau nes y cânt ail-afael ar eu gwaith gyda thîm o staff hynod

ymroddgar sydd â'r profiad a'r sgiliau i atgyfodi'r sector celfyddydau pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Mae CDCCymru wedi rhoi rhan fechan o'r staff ar y cynllun seibiant.

Mae'r cyllid brys a ddarparwyd gan CCC wedi bod yn allweddol, ac yn achos unigolion yn arbennig, wedi'i ddyfarnu'n gyflym ac i nifer uchel o'r ymgeiswyr, sydd wedi'i groesewi yn fawr. Dyma'r artistiaid a gweithwyr eraill y mae cwmnïau megis CDCCymru yn dibynnu arnynt ar gyfer creadigedd a chydweithio'r dyfodol, felly mae eu cyfranogiad parhaus ym myd y celfyddydau yn allweddol i ni ac eraill. Mae'r gronfa sefydliadol yn cael ei dyfarnu yn awr i'r rheiny a gafodd eu heffeithio yn nhon gyntaf yr argyfwng; mae'n bwysig bod y lefel o arian sydd wedi'i ddosbarthu yn galluogi sefydliadau i oroesi yn ystod y 6-9 mis nesaf.

Fodd bynnag, bydd ton nesaf yr argyfwng yr un mor allweddol, gan fod natur gylchol gwaith y sefydliadau yn golygu bod y colledion incwm a'r heriau hylifedd yn taro ar wahanol adegau yn y flwyddyn ariannol i wahanol sefydliadau.

Yn CDCCymru, rydym wedi gweithio yn eithriadol o galed i wneud CDCCymru yn llai dibynnol ar gyllid cyhoeddus: roedd ein grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrif am oddeutu 54% o drosiant y llynedd (i lawr o dros 80% bum mlynedd yn ôl). Mae'r gefnogaeth allweddol hon yn golygu nad yw CDCCymru wedi gorfod gwneud cais am gyllid brys gan CCC. Er y cawsom golledion sylweddol yn y chwarter cyntaf, rydym wedi llwyddo i ail-gyllido ar gyfer 2020/21, yn ddibynnol ar rai gweithgareddau cynhyrchu incwm a fydd yn cael eu cynnal yn ddiweddarach eleni. Yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol y gallai colledion yr incwm teithio fod ar ei fwyaf allweddol.

4. **Beth fydd effeithiau hirdymor tebygol Covid-19 ar y sector, a pha gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r rheiny?**

Mae gwytnwch sefydliadau celfyddydol wedi'i danseilio'n ddifrifol. Mae modelau busnes sydd wedi profi amrywiaeth o incwm wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd wedi methu; mae cronfeydd ariannol wrth gefn wedi lleihau'n sylweddol, ac mae amheuaeth wedi'i daflu ar effeithiolrwydd cynlluniau busnes. Er gwaethaf y risg i oroesiad sefydliadau, mae hwn yn hinsawdd a allai arwain at sefydliadau yn dangos parodrwydd i arloesi llai neu gymryd llai o risgiau, sy'n arwain at leihad yn uchelgais y celfyddydau.

Mae perfformwyr yn dueddol o ddychwelyd cyn i gynulleidfaoedd ddychwelyd, gan weithio yn gyntaf mewn dull sy'n cydymffurfio â mesurau ymbellhau'n gymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chyrff y diwydiant, gan gynnwys One Dance UK, i fod yn sail i safon ar gyfer dawnswyr sy'n gweithio mewn stiwdio, pan ddaw'r amser cywir.

Bydd ymbellhau'n gymdeithasol yn bygwth hyfywedd sefydliadau o ddifrif gan y bydd yn lleihau'r potensial incwm, o werthu tocynnau a gweithgarwch cynhyrchu incwm arall. Hyd yn oed pan fydd ymbellhau'n gymdeithasol yn cael ei lacio, mae'n bosibl y bydd cynulleidfaoedd hŷn yn amharod i ddychwelyd, sy'n tanseilio hyfywedd ymhellach. Bydd strwythur cynulleidfaoedd yn dueddol o newid, er mae sut y bydd hynny yn anodd iawn i'w ragweld ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd rhai adrannau o'r boblogaeth yn awyddus am brofiadau byw eto, ond bydd eraill yn ofni cynulliadau mawr.

Pan fydd rhagor o ddealltwriaeth ynglŷn â dychwelyd i berfformiadau byw, mae'n allweddol i sefydliadau ymgymryd ag ymchwil ac ymgynghoriad â chynulleidfaoedd a chyfranogwyr i ennill dealltwriaeth o'r ffyrdd y bydd gwahanol grwpiau o bobl yn ymateb i weithgarwch celfyddydol y dyfodol, a galluogi sefydliadau i addasu eu gwaith i gyd-fynd orau â diddordeb a galw. Ochr yn ochr â sawl un arall yn y sector, ar hyn o bryd mae CDCCymru yn ymgymryd ag ymgynghoriad ac ymchwil â'i leoliadau rheolaidd ynglŷn â'u gwaith cynllunio a ffordd o feddwl yn hyn o beth, gydag artistiaid a gweithwyr llawrydd yng Nghymru, a chyda cynulleidfaoedd a chyfranogwyr. Bydd peth o hyn yn waith ymchwilio i'r farchnad ffurfiol, ac yn ymgynghoriad mwy anffurfiol gydag eraill.

Bydd yr effaith ar waith rhyngwladol yn ddifrifol. Mae nifer o gwmnïau (gan gynnwys CDCCymru) wedi datblygu model busnes yn ddibynnol ar incwm o deithio dramor, ac mae hyn yn debygol o fod yn araf iawn yn dychwelyd, a gall fod yn rhywbeth gwahanol iawn pan fydd yn dychwelyd. Mae hyn wedi cael effaith ar allu'r celfyddydau i arddangos Cymru i'r byd, a chreu cydweithrediadau ystyrlon; mae CDCCymru wedi colli cyfle i deithio yn yr UE y gwanwyn hwn, ac mae bygythiad sylweddol i deithiau'r dyfodol, gan gynnwys cydweithrediad mawr â De Corea yn 2021.

I nifer o sefydliadau, bydd y Cynllun Cadw Swyddi yn parhau i fod yn allweddol i'w goroesiad am sawl mis i ddod ac er mwyn osgoi colledion swyddi eang yn y sector. Os yw ymbellhau'n gymdeithasol yn golygu mai prin yw'r theatrau sy'n debygol o ddychwelyd i'r arfer am flwyddyn neu fwy, mae rhaglen o gefnogaeth i'r sefydliadau hyn a'u staff yn allweddol, boed hynny drwy'r CCS, neu raglenni cefnogaeth eraill. Mae hyn yr un mor wir ar gyfer y cynllun i weithwyr llawrydd, sy'n dod i ben fis Medi; heb ragor o gefnogaeth, bydd nifer o bobl sy'n gweithio'n llawrydd yn y celfyddydau yn gorfod chwilio am waith taledig yn rhywle arall, a fydd yn arwain at golli creadigedd a gwytnwch, gan olygu y bydd adfer yn anoddach ac yn cymryd yn hirach.

5. **Pa wersi y gellir eu dysgu o sut mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff hyd braich a'r sector wedi ymdrin â Covid-19?**

Mae'r ymateb gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gyflym, clir a phriodol. Roedd yr oedi rhwng y cyngor i osgoi theatrau a'r cyfarwyddyd dilynol i gau gan Lywodraeth y DU yn ddi-werth gan ei fod yn cyflwyno amheuaeth i gynulleidfaoedd a sefydliadau.

6. **Sut gall y sector esblygu ar ôl Covid-19, a sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi arloesedd o'r fath i ymdrin â heriau'r dyfodol?**

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yng Nghymru yn ymroddedig i ehangu ac amrywio'r nifer a'r ystod o bobl sy'n cymryd rhan yn eu gweithgareddau. Rydym yn gwmni gweddol fychan, hyblyg. Rydym yn perfformio yn llefydd nad yw ensembles mwy yn gallu, ac rydym yn awyddus

i archwilio dulliau newydd o berfformio sy'n defnyddio hyblygrwydd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Mae ehangu a dyfnhau ein cyrhaeddiad wrth wraidd ein cenhadaeth a diben fel sefydliadau; mae Covid-19 a'i effaith anghymesur ar y tlotaf a'r rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd yn y gymdeithas yn tanlinellu'r ffocws hwnnw. Gall y bwlch yng ngweithrediadau arferol roi amser i'r sector fyfyrio ac ail-gynllunio gweithgarwch i sicrhau ein bod yn llwyddo yn ein cenhadaeth. Dylai'r profiad cymunedol o fod yn rhan o ddigwyddiad byw y celfyddydau perfformio, a'r effaith y gall ei chael ar gymuned, fod yn hawl i bawb yng Nghymru; bydd angen momentau cyfrannol arnom i'n gwella er mwyn adfer yn gyfan gwbl o effaith y firws hwn.

Mae hyn yn pwysleisio rôl y celfyddydau o ran mynd i'r afael â chyfiawnder cymdeithasol a materion amrywiaeth. Byddwn yn ymdrechu i barhau i ymgysylltu ymddiriedolwyr byrddau, dawnswyr a staff o wahanol gefndiroedd, ac yn ymgysylltu â'r ystod ehangaf o'r boblogaeth. Mae'r bygythiadau iechyd gwirioneddol i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig ynghyd ag anfantais gymdeithasol yn bygwth gwaith y sector yn y maes hwn.

Bydd yn allweddol i'r sector, asiantaethau ariannu a'r Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i herio rhwystrau ymgysylltiad ymhlith bob sector o'r boblogaeth - fel staff ac aelodau byrddau sefydliadau, ymhlith cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, a'r artistiaid yr ydym yn cyflwyno eu gwaith. Bydd hyn yn allweddol i'r broses wella.

Yn 2022, dylai bod gŵyl gelfyddydau ledled y DU yn cael ei chynnal, dan arweiniad tîm Gemau'r Gymanwlad sydd wedi'u lleoli yn Birmingham, Gŵyl Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, gyda chyllideb dybiedig o £120 miliwn. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i gyd-greu rhaglenni celfyddydol yn cynnwys cymunedau, sefydliadau celfyddydol ac artistiaid ledled Cymru sy'n gweithio mewn cydweithrediad, fel bod gweithgarwch creadigol, lleol yn digwydd ym mhob cwr o Gymru yn 2022 neu 2023, yn cynnwys ystod ehangach o bobl nag o'r blaen, i gynorthwyo gyda'r broses wella.

Dylai canlyniadau ymchwil ac ymgynghoriad fod yn sail i ffyrdd newydd o weithio: gall hyn gynnwys darparu peth gweithgarwch (gan gynnwys cyfranogiad) ar-lein, cynnig gwahanol ffyrdd o brofi gwaith byw a newid patrymau teithio. Er enghraifft, gellir cyflwyno mwy o waith yn yr awyr agored - er mor heriol y gall hynny fod mewn cenedl sy'n cael lefelau uchel o law.

Bydd angen cefnogaeth barhaus gan y Llywodraeth a'i hasiantaethau wrth i sefydliadau archwilio sut i ail-gyfeirio eu gweithrediad i addasu i farchnadoedd ac arferion newydd. Gallai hyn gynnwys cefnogi gweithgareddau 'profi a dysgu' colledion wrth i gynulleidfaoedd fagu hyder a sefydliadau celfyddydol addasu i ddulliau darparu newydd. Bydd y sector yn meddwl yn fwy digidol yn gyflym, ac mae ganddo rôl i helpu pobl i brosesu a deall.

Mae'r sector celfyddydau yn dueddol o addasu a newid yn gyflym er mwyn i'r celfyddydau ddod yn fwy hygyrch yn gyffredinol - ond bydd angen momentwm a chefnogaeth ariannol i sicrhau y gallwn barhau i arloesi. Gall y rhain gynnwys gallu i ffrydio ym mhob cartref,

systemau newydd i wylio sioeau ar-lein neu i ymgysylltu â'r celfyddydau yn ddigidol a chodi proffil cynhyrchwyr llai, sy'n cynnwys yr angen am hyfforddiant newydd a rhannu arbenigedd.

Mae dibynnu ar ffrydio digidol i rannu ein gwaith wedi amlygu bod nifer yng Nghymru dan anfantais yn sgil gwaharddiad digidol. Er enghraifft, nid oes gan nifer o'n cyfranogwyr Dawns ar gyfer Parkinson's yng Nghaerdydd a Choed-duon yr offer neu'r cysylltedd i gymryd rhan; rydym wedi gallu rhannu dosbarthiadau ar DVD, ond gall hyn weithio i niferoedd isel yn unig. Mae gwaith Cymunedau Digidol Cymru yn bwysig i leddfu effaith y gwaharddiad hwn, yn arbennig i'r rheiny sydd fwyaf ar ymyl cymdeithas.

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Mai 2020